**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at County Hall on Dydd Iau, 21ain Chwefror, 2019 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor P. Clarke (Chairman)
County Councillor S. Woodhouse (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, L.Brown, A.Davies, D. Dovey, L.Dymock, A. Easson, D. Evans, M.Feakins, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, M.Groucutt, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, S. Howarth, R.John, D. Jones, L.Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, P.Pavia, M. Powell, J.Pratt, R.Roden, B. Strong, T.Thomas, J.Treharne, J.Watkins, A. Watts and A. Webb

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matthew Phillips | Head of Law/ Monitoring Officer |
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Frances Williams | Chief Officer, Enterprise |
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |
| Matthew Gatehouse | Head of Policy and Governance |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |

**APOLOGIES:**

County Councillors J.Becker, D. Blakebrough, R. Edwards, L. Guppy, M.Lane, V. Smith, F. Taylor and K. Williams

**2. <u>Datganiadau o Fuddiant</u>**

Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**3. <u>MYND I'R AFAEL Â'N DIFFYG CYFLENWAD PUM MLYNEDD O DIR AR GYFER TAI: ADOLYGU AGWEDD SIR FYNWY AT SAFLEOEDD TAI HEB EU NEILLTUO</u>**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor er mwyn ceisio penderfyniad y Cyngor ar ei agwedd at fynd i'r afael â'i ddiffyg cyflenwad tir ar gyfer tai, yn benodol sut rydym yn delio â cheisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd heb eu neilltuo cyn i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd gael ei fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2021. Gwahoddwyd y Cyngor i adolygu ei benderfyniad a wnaed ar 20 Medi 2018 yn seiliedig ar ddata wedi'u cywiro ac ystyried polisi cynllunio cenedlaethol wedi'i ddiweddaru.

Mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Fynwy yn unig: nid yw'n effeithio ar y rhan honno o'r sir sy'n dod o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Tynnodd y Pennaeth Cynllunio, Llunio Lle a Thai sylw at baragraffau 6.4 a 6.5 o'r adroddiad yn nodi'r data wedi'u cywiro.

Eglurodd y Swyddog Monitro y bydd natur yr eitem yn effeithio ar benderfyniadau yn y dyfodol, ond hefyd ar ddau benderfyniad a wnaed eisoes, yn benodol Heol yr Eglwys, Cil-y-coed a Heol Trefynwy, Rhaglan. Roedd e-bost wedi'i anfon at Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn darparu cyngor ar lefel strategol, a chynghorodd bod y Cyngor yn osgoi cyfeirio at geisiadau penodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion.

Canmolodd Arweinydd y Grŵp Llafur Swyddogion am gyfarfod â'r Grŵp Llafur i drafod y manylion, a dywedodd ei fod yn cefnogi'r cynnig yn llawn.

Cododd Aelod Cabinet gwestiwn yng ngoleuni'r adroddiad a gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor Cynllunio yn cael cyfle i ailystyried yr adroddiad diwygiedig ar y safle ar gyfer 111 o dai yn Rhaglan, ac os gall y Pwyllgor Cynllunio ofyn i Lywodraeth Cymru oedi'u hymholiad Galw i Mewn. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio y byddai ceisiadau'n cael eu cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Cynllunio eu hystyried.

Roedd Y Cynghorydd Sir Howard yn dymuno nodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn Cynllun Rhaglan.

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:**

**Bod y Cyngor, wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl ar safleoedd heb eu neilltuo, yn parhau i roi 'pwysau priodol' i'w ddiffyg cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai, i'r graddau y mae'r cynigion datblygu hynny fel arall yn dderbyniol o ran cynllunio a bod yr 11 o ' reolau sylfaenol 'a nodir ym mharagraff 6.25 yn cael eu bodloni.**

.

## 4. ADNEWYDDU GLAN HAFREN - RÔL TÎM TREF CIL-Y-COED YN Y DYFODOL

Prif ddiben yr adroddiad oedd egluro cam nesaf Adfywio Glan Hafren a chael cymeradwyaeth y Cyngor cysylltiedig i ychwanegu'r prosiect at Raglen Gyfalaf 2019/20.

Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad ar Gynllun Sir Fynwy ar Adfywio De-ddwyrain Glan Hafren ac adolygiad o weithgareddau Tîm Tref Cil-y-coed hyd yma, gan gynnwys y gwariant Adran 106 cysylltiedig yn erbyn y canlyniadau disgwyliedig.

Cynigiwyd bod y Cyngor yn cymeradwyo adfer unrhyw symiau o'r A106 oedd heb eu gwario ar gyfer gweithgarwch Partneriaeth Canol Tref oddi wrth Dîm Tref Cil-y-coed a defnyddio gweddill yr arian A106 oedd heb ei wario i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y cynllun Adfywio ehangach.

Eiliodd y Cynghorydd P. Murphy y cynnig.

Nododd y Cynghorydd Easson nad oedd Cyngor Tref Cil-y-coed wedi chwarae rhan lawn fel ymgynghorai.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at rôl y Tîm Tref i'r pwynt hwn, gan eu cydnabod fel y Tîm Tref cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru, gan nodi y byddent yn parhau i dderbyn cefnogaeth o ran galluogi a hwyluso.

Croesawodd yr Arweinydd y gwaith o adfywio Cil-y-coed ac ychwanegodd ei werthfawrogiad o waith y gwirfoddolwyr parod.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at County Hall on Dydd Iau, 21ain Chwefror, 2019 at 2.00 pm**

Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhellion:

Bod y Cyngor yn cymeradwyo cam nesaf Adfywio Glan Hafren ac ychwanegu'r ddau brosiect sy'n werth cyfanswm o £1,241,194 i'r rhaglen gyfalaf, a ariennir fel y disgrifir yn yr Adran Adnoddau isod.

Bod y Cyngor yn cydnabod adfer unrhyw arian Adran 106 heb ei wario o Dîm Tref Cil-y-coed ac yn neilltuo hwn i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer Cynllun Adfywio Glan Hafren, ochr yn ochr â chyfuno cyllideb gyfalaf pwyllgorau ardal i'r prosiect (gan werthfawrogi mai gwobr flynyddol yw ac wedi arddangos gweithgarwch cyfyngedig dros y 2 flynedd ddiwethaf), a gweddill cronfeydd Partneriaeth Canol Tref Adran 106 sydd heb eu neilltuo.

Bod y Cyngor yn cymeradwyo cam nesaf Adfywio Glan Hafren ac ychwanegu'r ddau brosiect sy'n werth cyfanswm o £1,241,194 i'r rhaglen gyfalaf, a ariennir fel y disgrifir yn yr Adran Adnoddau isod.

Bod y Cyngor yn cydnabod adfer unrhyw arian Adran 106 heb ei wario o Dîm Tref Cil-y-coed ac yn neilltuo hwn i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer Cynllun Adfywio Glan Hafren, ochr yn ochr â chyfuno cyllideb gyfalaf pwyllgorau ardal i'r prosiect (gan werthfawrogi mai gwobr flynyddol yw ac wedi arddangos gweithgarwch cyfyngedig dros y 2 flynedd ddiwethaf), a gweddill cronfeydd Partneriaeth Canol Tref Adran 106 sydd heb eu neilltuo.

**5. CYNLLUN CORFFORAETHOL: AMCANION AR GYFER 2019-2020**

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad i gymeradwyo parhad y pum nod a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn 2018 fel amcanion y Cyngor ar gyfer 2019-20 i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Cyfeiriodd Arweinydd yr Wrthblaid at y pwyntiau canlynol:

- Nod C, 13 *mae'r cyngor yn cadw ffyrdd ac ardaloedd gwledig yn ddiogel* ac yn cwestiynu pam fod Ardaloedd Trefol wedi'u heithrio. Roedd yr Arweinydd o'r farn bod hon yn her deg a byddai'r derminoleg yn cael ei hasesu.
- Nod D, 16 *mae'r cyngor yn cyflawni ar gyfiawnder cymdeithasol, gwell ffyniant a lleihau anghydraddoldeb* a pha faes anghydraddoldeb y cyfeirir ato. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol eglurhad bod hyn yn berthnasol i:

  1. Leihau tlodi plant ac ynysu cymdeithasol, a gwella cynhwysiant economaidd.
  2. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb .
  3. Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a lles trwy ddatblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau.
- Nod A, 1 *mae'r cyngor yn buddsoddi yn ysgolion y dyfodol,* a cheisiodd sicrwydd ynghylch ysgolion y presennol. Gwnaeth yr Arweinydd yn glir bod gwastad un llygad ar ysgolion y presennol ynghyd ag ysgolion y dyfodol. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ein bod yn buddsoddi yn ysgolion y presennol yn ogystal.

Canmolodd y Cynghorydd Gwarchet y Cynghorydd Batroujni am y cynnig diweddar yn ymwneud â'r bygythiad i dynnu nôl y gwasanaeth SENCOM, gan nodi i Gasnewydd ohirio'u penderfyniad i dynnu nôl y gwasanaeth.

**Yn dilyn pleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad;**

**Derbyn y nodau a gynhwysir yng Nghynllun Corfforaethol 2017-22, fel yr amlygir yn Atodiad 1, fel Amcanion Gwelliant y Cyngor ar gyfer 2019-20 mewn trefn.**

## 6. DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU - BUDDSODDIADAU MASNACHOL

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i archwilio'r diffiniad o fuddsoddiadau masnachol a chael cymeradwyaeth i ategu caffaeliadau "brics a morter" traddodiadol gan ystyried mathau eraill o fuddsoddiadau doeth a synhwyrol.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai adroddiad pellach ynghylch datblygu cwmni datblygu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill

Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:

**Cymeradwyo diffiniad ehangach o Fuddsoddi Masnachol sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Buddsoddi ystyried cyfleoedd sy'n bodloni disgwyliadau elw nad ydynt yn gyfyngedig i gaffaeliadau tir ac adeiladau yn unig.**

**Caniatáu ystyried cyfleusterau benthyciadau masnachol.**

**Caniatáu ystyriaeth i ddefnyddio cyllideb fuddsoddi i adeiladu neu adnewyddu daliadau portffolio buddsoddi.**

**Caniatáu ystyried ecwiti neu ddiddordeb debentur.**

## 7. YSTYRIAETHAU'R RHAGLEN GYFALAF 2018-19 - CYFALAFU GWARIANT REFENIW AC YCHWANEGU CYNLLUNIAU

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Dros Adnoddau adroddiad i egluro'r blaenoriaethau mewn adnoddau sy'n gysylltiedig ag adnoddau cyfalaf ychwanegol a ddarparwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ystyried bod unrhyw ychwanegiad i'r rhaglen gyfalaf yn ystyriaeth gan y Cyngor Llawn.

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r argymhellion:**

**Cymeradwyo gwariant cyfalafu cyfanswm refeniw o £444 mil fel y disgrifiwyd ym mis 7 y monitro ariannol a rennir gyda'r Cabinet a 4 Pwyllgor Dethol a'u cynnwys isod yn yr isadran adnoddau.**

Cymeradwyo gwariant cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â chynnal a chadw priffyrdd (£150 mil) a chreu ystafell ddosbarth (£30 mil)

Ategu'r balans o gyllid ychwanegol (£ 716 mil), y dylid ei ddefnyddio i ddarparu cyfleoedd cyfalafu pellach i gynorthwyo gyda sefyllfa alldro fuddiol a chaniatáu capasiti ychwanegol i ailgyflenwi lefelau wrth gefn.

## 8. CYHOEDDI DATGANIAD POLISI CYFLOGAU FEL SY'N OFYNNOL DAN Y DDEDDF LLEOLIAETH

**CYHOEDDI DATGANIAD POLISI CYFLOGAU FEL SY'N OFYNNOL DAN Y DDEDDF LLEOLIAETH**
**Derbyniodd y Cyngor adroddiad i gymeradwyo cyhoeddi Polisi Cyflogau Cyngor Sir Fynwy, yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth.**

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019.**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo talu'r dyfarniad cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ac y cytunwyd arno gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol. Mae telerau ac amodau cyflogaeth a chyflog Prif Weithredwr yn cael eu rhagnodi gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol yr Awdurdod Lleol. Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol pob Swyddog o fewn cwmpas y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol o 2% i rym o 1 Ebrill 2018 a 2% o 1 Ebrill 2019. Mae'r cytundeb cyflog hwn yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2020.**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo talu'r dyfarniad cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ac y cytunwyd arno ar gyfer y gweithwyr hynny sy'n dod o dan y Cyd-gyngor Cenedlaethol (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion. Mae telerau ac amodau cyflogaeth a chyflog y Prif Swyddogion yn cael eu rhagnodi gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yr Awdurdod Lleol. Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl Swyddogion o fewn cwmpas y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol 2% yn dod i rym o 1 Ebrill 2018 a 2% o 1 Ebrill 2019. Mae'r cytundeb cyflog hwn yn cwmpasu cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2020. Mae'r Cyngor yn cyflogi Prif Swyddogion dan delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol, sy'n cael eu hymgorffori mewn contractau cyflogaeth. Mae'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yn trafod codiadau cyflog costau byw cenedlaethol (y Deyrnas Unedig) ar gyfer y grŵp hwn, a phennir unrhyw ddyfarniad ar y sail hon. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir dan delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol hawl cytundebol i unrhyw godiadau cyflog a bennir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ac felly bydd y Cyngor hwn yn talu'r rhain yn ôl y gofyn yn unol â gofynion cytundebol.**

**The meeting ended at Time Not Specified**